# Gwneud yn siŵr bod digon o fydwragedd i ofalu'n ddiogel am ferched a babanod

Chwefror 2015

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae canllawiau NICE yn rhoi cyngor ar y gofal a'r cymorth a ddylai gael eu cynnig i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal.

Mae'r wybodaeth hon yn egluro'r cyngor gan NICE ynghylch sut y dylai merched a babanod gael y gofal sydd ei angen arnynt gan fydwragedd, ar bob adeg o'r dydd a'r nos, saith diwrnod yr wythnos (Canllaw 4 NICE). Mae'r wybodaeth yn berthnasol i bob bydwraig sy'n darparu gofal y GIG i ferched a babanod gan gynnwys y rheini mewn clinigau ac unedau mamolaeth a'r rheini sy'n ymweld â chartrefi merched. Mae'n berthnasol i fydwragedd sy'n gweithio gyda:

- merched sy'n gobeithio beichiogi
- merched yn ystod beichiogrwydd a'r cyfnod esgor
- merched a'u babanod ar ôl yr enedigaeth.

Nid yw'n berthnasol i feddygon, gweithwyr cymorth mamolaeth nac aelodau eraill o staff sy'n gweithio gyda bydwragedd i ofalu am ferched a babanod.

## Penderfynu faint o fydwragedd sydd eu hangen

Mae NICE o'r farn y dylai fod gan unrhyw le sy'n darparu gwasanaethau mamolaeth y GIG system ar waith i sicrhau bod digon o fydwragedd ar bob adeg i ofalu'n ddiogel am ferched a'u babanod a rhoi cymorth iddynt.

Dylai'r system wneud y canlynol:

- caniatáu ar gyfer yr holl ofal sydd ei angen ar ferched gan fydwragedd cyn beichiogrwydd, yn ystod beichiogrwydd ac yn ystod y cyfnod esgor, ac ar gyfer y gofal sydd ei angen ar ferched a'u babanod ar ôl yr enedigaeth

- ystyried anghenion y ferch ac unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen, er enghraifft, os bydd ganddi ddiabetes
- caniatáu cymorth un-i-un i bob merch sydd wedi cyrraedd cyfnod esgor sefydledig ('established labour' yn Saesneg, sef pan fydd cyfangiadau rheolaidd a phoenus, a phan fydd y serfics wedi agor o leiaf 4cm)
- gallu rheoli newidiadau beunyddiol yn yr angen am fydwragedd a darparu aelodau o staff wrth gefn pan fydd bydwragedd ar wyliau, yn ymgymryd â hyfforddiant neu'n sâl.

Mae angen i bobl sy'n cynllunio gwasanaethau mamolaeth sicrhau'r canlynol:

- bod ganddynt gynlluniau ar waith i ymdrin â newidiadau annisgwyl o ran y galw am fydwragedd, er enghraifft, drwy ddefnyddio aelodau eraill o staff i helpu neu drwy ddefnyddio bydwragedd ar ddyletswydd neu dros dro, neu drwy aildrefnu gwaith nad yw'n waith brys
- eu bod yn adolygu faint o fydwragedd sydd eu hangen a ph'un a yw'r galw wedi newid - dylent gynnal yr adolygiad o leiaf bob chwe mis
- eu bod yn newid nifer y bydwragedd a gyflogir os bydd yr adolygiad yn dangos bod angen gwneud hynny.

## Cadarnhau bod digon o fydwragedd ar gael bob dydd

Dylai bwrdd ac uwch reolwyr yr ysbyty sicrhau bod bydwragedd ar gael sydd wedi'u hyfforddi i gadarnhau bod digon o fydwragedd ar gael bob dydd a beth i'w wneud os nad oes digon ohonynt.

Ar ddechrau pob diwrnod neu sifft, dylai'r fydwraig sy'n gyfrifol am yr uned neu'r sifft gadarnhau bod digon o fydwragedd ar gael i roi'r gofal bydwreigiaeth sydd ei angen arnynt i ferched a babanod. Wrth gadarnhau hyn, dylai ystyried anghenion penodol y merched a'r babanod y mae angen gofal arnynt ar y diwrnod hwnnw neu yn ystod y sifft. Dylai hefyd ystyried yr amser sydd ei angen ar fydwragedd i ymgymryd â gweithgareddau eraill, megis amser i siarad â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, amser i deithio ac amser egwyl.

Yn ystod y diwrnod neu'r sifft, dylai'r fydwraig sy'n gyfrifol nodi unrhyw 'ddigwyddiadau baner goch'. Mae'r digwyddiadau hyn yn arwyddion efallai nad oes digon o fydwragedd i roi'r gofal sydd ei angen arnynt i ferched a babanod.

### *Digwyddiadau baner goch: arwyddion efallai nad oes digon o fydwragedd ar gael*

Caiff gweithgareddau y mae angen eu gwneud yn brydlon eu gohirio neu eu canslo.

Ar ôl rhoi genedigaeth, rhaid i ferch aros am 60 munud neu fwy cyn iddi gael ei golchi neu gael pwythau, os bydd eu hangen arni.

Ni fydd merch yn cael y meddyginiaethau sydd eu hangen arni pan gaiff ei derbyn i'r ysbyty neu uned famolaeth o dan arweiniad bydwragedd.

Rhaid i ferch aros 30 munud neu fwy i gael opsiwn lleddfu poen pan gaiff ei derbyn i uned famolaeth mewn ysbyty neu uned famolaeth o dan arweiniad bydwragedd.

Rhaid i ferch sy'n esgor neu sydd â phroblem y mae angen gofal bydwraig ar ei chyfer aros 30 munud neu fwy i gael asesiad ar ôl i'r fydwraig gael gwybod.

Ni chaiff merch archwiliad llawn pan fydd yn rhoi gwybod ei bod yn esgor.

Ceir oedi o ddwy awr neu fwy rhwng dod i mewn i ysgogi'r cyfnod esgor a dechrau'r broses honno.

Oedi wrth nodi arwyddion y gall fod gan ferch broblem iechyd difrifol a gweithredu'n unol â hynny.

Dylai'r fydwraig sy'n gyfrifol gynnal archwiliad arall i gadarnhau bod nifer briodol o fydwragedd ar gael o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os cyfyd angen annisgwyl am fwy o fydwragedd - er enghraifft, gan fod mwy o ferched na'r disgwyl yn esgor neu gan fod angen gofal neu gymorth ychwanegol ar fwy o fenywod neu fabanod
- os ceir absenoldeb annisgwyl gan aelod o staff, megis pan na fydd bydwraig yn y gwaith am ei bod yn sâl

- os bydd digwyddiad baner goch yn digwydd.

Dylai'r fydwraig sy'n gyfrifol gadw cofnod o unrhyw wahaniaethau rhwng nifer y bydwragedd sydd eu hangen a'r nifer a oedd ar gael mewn gwirionedd ar gyfer pob diwrnod neu sifft. Dylai hefyd gofnodi unrhyw ddigwyddiadau baner goch a'r camau a gymerwyd o ganlyniad.

Dylai fod gan bob gwasanaeth mamolaeth gynllun o ran yr hyn y dylai'r fydwraig sy'n gyfrifol ei wneud os bydd archwiliadau yn dangos nad oes digon o fydwragedd ar gael. Os bydd hyn yn digwydd, mae angen iddi allu gweithredu'n gyflym, er enghraifft, drwy ofyn i aelodau eraill o staff hyfforddedig helpu neu drwy ofyn i fwy o fydwragedd weithio.

Gweler beth y gallwch ei wneud i gael gwybodaeth am yr hyn y gall merched, a'u teuluoedd neu eu gofalwyr, ei wneud os byddant yn credu bod problem.

## Cadarnhau bod digon o fydwragedd wedi'u cyflogi

Dylai uwch fydwragedd fonitro p'un a oes digon o fydwragedd i ddarparu gofal i ferched a babanod. Dylent edrych ar y cofnodion sy'n nodi adegau pan nad oedd nifer y bydwragedd a oedd ar gael yn cyfateb i'r nifer yr oedd eu hangen a phan ddigwyddodd digwyddiadau baner goch (gweler y bwlch digwyddiadau baner goch: arwyddion efallai nad oes digon o fydwragedd).

Gellir casglu adborth gan ferched a'u teuluoedd neu eu gofalwyr gan ddefnyddio'r Arolwg Gwasanaethau Mamolaeth Cenedlaethol. Mae'r arolwg yn cynnwys cwestiynau ynghylch safon y gofal a gafodd y ferch yn ystod y cyfnod esgor a'r enedigaeth, faint o gymorth a gafodd ar ôl iddi eni ei baban (gan gynnwys cymorth wrth fwydo ar y fron ac unrhyw broblemau megis iselder ôl-enedigol), a pha mor dda y llwyddodd y bydwragedd i gyfathrebu â hi.

Dylai sefydliadau hefyd gadw cofnodion o'r canlynol:

- p'un a ddaeth merch i apwyntiad cychwynnol o fewn 13 wythnos o feichiogi

- p'un a gaiff merched eu derbyn i'r ysbyty pan fyddant yn feichiog neu ar ôl iddynt roi genedigaeth
- nifer y merched sy'n dioddef trawma yn ystod yr enedigaeth, megis rhwyg sy'n digwydd wrth eni
- p'un a wnaeth y ferch roi genedigaeth yn y man o'i dewis
- faint o ferched sy'n bwydo eu babanod ar y fron
- pa mor aml y bu'n rhaid i'r staff golli egwyl, gweithio goramser neu pha mor aml roeddent yn sâl
- pa mor hapus yw'r staff wrth eu gwaith.

Dylai rheolwyr ysbytai edrych ar y wybodaeth hon yn rheolaidd er mwyn gweld a oes unrhyw broblemau, a dylent ei defnyddio wrth lunio cynlluniau hirdymor.

## Beth y gallwch ei wneud

Os bydd merch, ei theulu neu ofalwr, o'r farn bod digwyddiad baner goch wedi digwydd, neu os bydd ganddynt bryderon eraill, dylent roi gwybod i'r fydwraig sy'n gyfrifol am y sifft neu'r gwasanaeth ar y pryd. Gweler y bwlch digwyddiadau baner goch: arwyddion efallai nad oes digon o fydwragedd.

Efallai y gofynnir i chi roi adborth am eich profiad o'r gwasanaethau mamolaeth a ddefnyddir gennych. Bydd eich barn a'ch sylwadau, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn helpu'r ysbyty i ganfod pa mor dda y mae'n gwneud ac i wneud newidiadau os bydd angen.

Os bydd gennych bryderon am y gofal a gawsoch gan fydwraig, gallwch siarad â'r Gwasanaeth Cyngor a Chysylltiadau Cleifion (PALS). Mae gan y rhan fwyaf o ysbytai swyddfa PALS. Ceir gwybodaeth am PALS a sut i gwyno ar wefan yr NHS.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb gwybodaeth a roddir gan sefydliadau eraill.

ISBN: 978-1-4731-1194-3